

# Adra

Y newyddion, gwybodaeth a'r straeon diweddaraf o'ch cymunedau lleol

## Gaeaf 2022

# Yma i Chi

## Yn y rhifyn yma:


- Argyfwng costau byw t.2
- Sgwrs hefo un o aelodau'r tîm t.3
- Buddsoddi yn eich cartrefi t.6
- Eich adborth chi t.11


**A llawer mwy**



Diwrnod bioamrywiaeth ardal Llanllyfni

adra.co.uk @adrataicyf




## Argyfwng costau byw

# Yma i Chi

Rydym yn byw mewn cyfnod ansefydlog gyda costau byw yn cynyddu.

Mae'n gwbl naturiol i chi deimlo'n bryderus am y sefyllfa a 'da ni eisiau i chi wybod ein bod ni yma i chi. Cofiwch fod ein tîm yma i'ch helpu a chynnig cyngor a chefnogaeth.

Dŵr Cymru Welsh Water

I CAN Law yn llaw at iechyd meddwl Together for mental health

cyngor ar bopeth citizens advice

**Poeni am eich sefyllfa ariannol?**
Os ydych yn poeni am eich sefyllfa ariannol a ddim yn siwr 'da chi am allu fforddio talu eich biliau – mae cymorth ar gael.

Mae ein timau yma i'ch helpu ac i'ch cyfeirio at help gan eraill.

**Cysylltwch â ni yn syth os:**

- ydych yn poeni am eich sefyllfa ariannol
- ydych wedi colli eich gwaith
- yn rhagweld y byddwch methu talu eich biliau i gyd

Mae gan ein tîm lawer iawn o brofiad a gwybodaeth i'ch helpu i ddod o hyd i ffyrdd o ddatrys eich pryderon, ac i sicrhau eich bod yn hawlio pob budd-dal a cymorth grant sydd ar gael i chi.

Am wybodaeth penodol am grantiau, banciau bwyd, wardeiniaid ynni, Cyngor ar Bopeth, a mwy, ewch ar ein gwefan neu cysylltwch â ni'n uniongyrchol:

**ymholiadau@adra.co.uk / 0300 123 8084**

Rydym yn cydweithio hefo nifer o bartneriaid sy'n cynnig gwasanaethau i gefnogi ein tenantiaid fel Cyngor ar Bopeth, Dŵr Cymru, iCan ac Wardeiniaid Ynni.

Mae gennym hefyd ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth a chefnogaeth costau byw, i roi cyngor wyneb yn wyneb a dangos pa gymorth sydd ar gael gan ein gwahanol bartneriaid. Cadwch llygaid allan am ddyddiadau ac amseroedd y mae rhain ymlaen gennym.



# Sgwrs hefo un o aelodau'r tîm sydd Yma i Chi

Dyma Rhys, un o aelodau o'r tîm sydd yn barod i'ch helpu a'ch cefnogi gyda chostau byw.

Cawsom sgwrs i ddal fyny hefo fo ac i wybod mwy am yr hyn mae o'n gyflawni'n ei swydd.

**Fedri di egluro be ti'n neud yn dy swydd o ddydd i ddydd?**

Prif bwrpas ein gwaith ydi cefnogi ein cwsmeriad i uwchafu eu incwm sy'n golygu eich helpu chi gael y mwyaf o arian i mewn â phosib. Rydym yn gwneud hyn trwy drafod gyda chi am eich sefyllfa/incwm i wneud yn siŵr eich bod yn hawlio'r cymorth sydd ar gael i chi. Budd-daliadau fel i Credyd Cynhwysol, Budd-dâl Tai, a mwy. Rydym hefyd yn cydweithio efo asiantaethau eraill er mwyn cynnig cefnogaeth i chi allu gwneud cais am fudd-daliadau, grantiau, cyllidebu ac edrych mewn i gostau ynni.

**Fedri di roi enghraifft o sut wyt ti wedi gallu helpu cwsmer Adra gyda chostau?**

Yr enghraifft mwyaf diweddar sydd yn dod i'n meddwl ydi pan ges i gwsmer oedd wedi colli ei mham ac roedd hi rŵan yn byw ar ben ei hun. Toedd hi ddim yn hawlio dim byd i'w helpu yn ariannol.

Roedd hi wedi bod yn gofalu am ei mham ac incwm y fam oedd y prif incwm yn y cartref. Roedd hi'n poeni am sut y bysa hi'n talu am y rhent a hefyd costau o ddydd i ddydd. Nes i egluro bod hi angen gwneud cais am Gredyd Cynhwysol (Universal Credit). Byddai hyn yn rhoi incwm personol iddi a helpu tuag at dalu ei rhent gan nad ydi hi yn gweithio.

Hefyd, gan bod hi'n byw mewn cartref dwy ystafell wely a hithau ar ei phen ei hun roedd hi am gael gael ei heffeithio gan y 'bedroom tax'. Oherwydd hyn byddai'r Credyd Cynhwysol yn tynnu tua £14 yr wythnos oddi ar daliadau rhent roedd hi am dderbyn.

Nes i gwblhau ffurflen 'Taliad tai yn ôl Disgresiwnt' efo hi er mwyn cael cymorth i dalu hwn. Mae'r help yma i'w gael trwy eich Cyngor Sir leol. Yn yr achos yma roeddem yn llwyddiannus i dderbyn taliadau 'bedroom tax' yn llawn. Roedd hyn yn help mawr i'r cwsmer iddi beidio gorfod poeni am ei rhent – rhwng derbyn y Credyd Cynhwysol a'r 'Discretionary Housing Payment' roedd hi'n cael ei rhent wedi talu yn llawn. Roedd hyn yn bwysa oddi ar ei ysgwyddau ac yn rhoi amser i'r cwsmer allu canolbwyntio ar faterion eraill a hawlio am fudd-daliadau eraill.

Roedd gan y cwsmer anabledd felly nes i gyfeirio at Cyngor ar Bopeth/Citizens Advice i weld os oedd yn gymwys i hawlio' Lwfans Cyflogaeth a Chefnogeth / Taliad Annibyniaeth Personol' er mwyn cael cymorth pellach wrth neud cais a chwblhau'r ffurflenni.

Mae gallu cefnogi a helpu pobl fel hyn yn rhan mor bwysig o'r swydd a dwi yn cael balchder mawr o neud hynny. Rydan ni'n annog unrhyw un o'n cwsmeriaid i gysylltu efo ni os ydynt yn pryderu am faterion ariannol, nawn ni wneud be allwn i helpu.

# Bwyd mewn argyfwng

Mae banciau bwyd lleol yn darparu bocsys bwyd argyfwng i bobl a theuluoedd sydd eu hangen.

Os ydych chi angen y gwasanaeth hwn cysylltwch â'ch Banc Bwyd lleol.

Mae gwefan y Trussell Trust yn gallu eich cyfeirio at eich banc bwyd lleol, a'u manylion cyswllt. Ewch draw i'w gwefan **www.trusselltrust.org** neu ffoniwch **01722 580 180**.

## Dyma fanylion rhai o'r banciau bwyd yng Ngwynedd:

### Banc Bwyd Cadeirlan Bangor

Lleoliad: Canolfan yr Esgobaeth, Cathedral Close, Bangor, LL57 1RL (y tu ôl i'r Eglwys Gadeiriol).

Sut i gysylltu: Cewch fwy o wybodaeth drwy ebostio lesley.beckton@yahoo.co.uk

### Banc Bwyd Arfon

Lleoliad: Canolfan Gwyrfai, Lôn Cae Ffynnon, Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD.

Sut i gysylltu: Cewch fwy o wybodaeth drwy ebostio info@arfon.foodbank.org.uk, ffonio 07586 053961 neu ymweld â'r dudalen Facebook.

### Abermaw

Lleoliad: Revelation, Park Road, Abermaw, LL42 1PH.

Sut i gysylltu: Cewch fwy o wybodaeth wybodaeth drwy ffonio 07973 914599 neu ebostio info@southgwynedd.foodbank.org.uk
Neu ewch i southgwynedd.foodbank.org.uk

### Porthmadog, Penrhyndeudraeth, Bala, Dolgellau a Thywyn

Lleoliad: Mae parseli bwyd brys ar gael i'w casglu o Borthmadog, Penrhyndeudraeth, Bala, Dolgellau a Thywyn.

Sut i gysylltu: Cewch fwy o wybodaeth drwy ffonio 07973 914599 neu ebostio info@southgwynedd.foodbank.org.uk

### Banc Bwyd Ffestiniog

Lleoliad: Neuadd yr Eglwys, Heol yr Eglwys, Blaenau Ffestiniog, LL41 3HB (gyferbyn â Chanolfan Tan y Maen).

Sut i gysylltu: Ewch i Swyddfa'r Dref Werdd iddynt eich cyfeirio i'r Banc Bwyd. Am fwy o wybodaeth ffoniwch 07435 290 553 neu ymweld a'r dudalen Facebook.

### Banc Bwyd Pwllheli

Lleoliad: Eglwys San Pedr, Pwllheli, LL53 5DS.

Sut i gysylltu: Cewch fwy o wybodaeth drwy ebostio pwllhelifoodbank@gmail.com neu ffonio 07359356383 neu ymweld â'r dudalen Facebook.



# Dod at ein gilydd i gynnig croeso cynnes yn ystod yr argyfwng costau byw

croeso cynnes
WARM WELCOME

Rydym yn ymuno hefo partneriaid ar draws gogledd Cymru i gynnig mannau cynnes, diogel i bobl sy'n cael trafferth ymdopi â chostau ynni cynyddol gan gynnwys ein cwsmeriaid ni a thrigolion lleol.

Mae Croeso Cynnes wedi ymrwymo i agor mannau mewn swyddfeydd, llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol eraill. Yma gall pobl ymweld i gadw'n gynnes a chael diod neu fwyd poeth heb orfod rhoi eu gwres yn eu cartrefi eu hunain ymlaen yn ystod y dydd.

Bydd rhai o leoliadau Croeso Cynnes hefyd yn cynnwys gweithgareddau cymunedol a digwyddiadau gwybodaeth fel sut i arbed ynni a chynyddu incwm.

Byddwn yn rhoi negeseuon ar ein cyfryngau cymdeithasol am y lleoliadau mannau Croeso Cynnes. Byddwn hefyd yn anfon neges text i bobl yn yr ardal ac rhoi posteri gwybodaeth o amgylch cartrefi cyfagos er mwyn i chi wybod.

Ymhellach i hyn, mae gan Menter Môn fap rhyngweithiol sy'n dangos mannau Croeso Cynnes ein partneriaid i gyd ac mae croeso cynnes i chi ddefnyddio unrhyw un o'r mannau yma.

Ymhlith y partneriaid sy'n agor gofodau Croeso Cynnes mae cymdeithasau tai Adra, Cartrefi Conwy, Grwp Cynefin, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru a ClwydAlyn, Cyngor Sir Ddinbych a'r elusen gwasanaethau tai Canllaw.



# Buddsoddi yn eich cartrefi i'w gwneud yn fwy effeithlon

Mae parhau i fuddsoddi a gwario ar ein tai presennol yn hollbwysig i ni yn ogystal ag adeiladu tai newydd o safon i gyfarch yr angen tai lleol.

Un ffordd yr ydym yn cyfarch hyn ydi drwy gynnal gwaith gwella allanol y tai a chynnal gwaith mewn gwahanol ardaloedd yng Ngwynedd.



Bydd y gwaith yn amrywio o gartref i gartref a bydd ein staff yn trafod gyda phob tenant yn unigol yn dilyn archwiliad ar y cartref. Dyma rhai o'r gwaith allanol rydym yn ei wneud ar ein tai presennol:

- Gosod toi newydd
- Ail chwipio waliau
- Insiwleiddio waliau'r cartref
- Gosod ffenestri a drysau newydd
- Gosod gwteri a 'fascia boards' newydd
- Gwella neu gosod ffens a llwybrau newydd

Mae cynnal gwaith fel yr uchod yn waith sylweddol ar gartref ac mae cwblhau gwaith fel hyn yn cymryd amser. Ond rydym yn teimlo fod buddsodi arian ag amser i wneud y gwaith yma yn un o'n prif flaenoriaethau ni. Gyda phrisiau ynni yn cynyddu, a chostau byw mor uchel rydym yn deall y pwysau sydd ar bawb ac felly yn deall pwysigrwydd gwneud eich cartref yn un mor glud ac effeithlon â phosib.

## Dywedodd Mathew Gosset, ein Cyfarwyddwr Cynorthwyol Asedau:

"Mae cael cydweithio hefo cwmnïau lleol ar y cynlluniau yma yn golygu ein bod yn cadw'r bunt yn lleol a fod y gymuned leol yn elwa o'r buddosoddiad trwy gynlluniau gwerth cymdeithasol."

"Mae'r math yma o waith yn cael effaith positif ar ôl-droed carbon ac effeithlonrwydd ynni y cartref. Ar gyfartaledd mae pob cartref sydd yn derbyn gwaith insiwleiddio yn lleihau ei ôl-troed carbon o tua 20% a mae hefyd yn help i leihau costau ynni i'n tenantiaid, sy'n bwysig iawn yn yr hinsawdd bresennol".



Cadwch olwg ar ein cyfryngau cymdeithasol i weld lluniau ar sut mae'r datblygiadau yma yn dod yn eu blaen dros yr wythnosau nesaf.

# Cynnal a Chadw eich cartref chi

Mae ein tîm trwsio yn gweithio yn galed iawn yn ail-blymio, plastro a datrys problemau yn eich cartref mor fuan â phosibl.

**Ond ydych chi'n gwybod beth yw eich cyfrifoldeb chi? Mae'r rhestr isod yn rhoi syniad i chi o beth yw eich cyfrifoldebau chi fel tenant i ni:**

- **Ail osod gwasgedd eich boeler**
- **Ystafell ymolchi** – trwsio cypyrddau, drych, cyrten cawod, rheiliau, plygiau a chadwyni
- **Addurno** – unrhyw waith paentio neu bapur wal rydych chi eisiau newid
- **Drysau** – os ydych wedi cael carpedi newydd ac angen addasu'r drysau
- **Offer trydanol** – fel poptai, oergell a pheiriannau golchi dillad
- **Llefydd tân a'r gosodiad o'i amgylch** – unrhyw beth i wneud gyda'r gosodiad o amgylch y lle tân a'r badell ludw
- **Gosodiadau a ffitiadau** – pethau fel bachau cotiau a rheiliau cyrtens
- **Gerddi** – torri gwair, llwyni a gwrychoedd
- **To ar oledd (lean-to)** – to/cysgodfa yn sownd i ochr eich cartref
- **Golau** – bylbiau, ffiwsys a bylbiau yn y gegin
- **Cloeon** – os ydych yn colli eich goriad neu drwsio'r drws ar ôl mynediad gorfodol (Ad-daliad)
- **Seddi toiled** – craciau yn y sedd neu sedd yn rhydd neu osod sedd newydd

**Mae fideos newydd ar ein gwefan yn eich helpu gyda rhai o'r tasgau yma.**

Oes os unrhyw waith trwsio arall angen ei wneud yn eich cartref, yna cysylltwch â ni.




# Ymateb i'r Argyfwng Ynni

## Cymorth ar gael

Yn wyneb yr argyfwng ynni a chostau yn cynyddu, mae pwysau mawr ar deuluoedd ddelio hefo'r sefyllfa anodd yma. Yn wir, mae nifer fawr iawn o gartrefi angen help ymarferol ac ariannol i fedru ymdopi wrth i gostau byw cyffredinol godi.

**Pa fath o gymorth sydd ar gael?**

Mae ein wardeiniaid ynni ar gael i roi cyngor ddi-duedd ar arbed ynni. Gall y wardeiniaid:

- helpu i arbed ynni yn eich cartref
- esbonio biliau a thariffau
- helpu rhaglennu a deall eich system gwresogi
- cyfeirio chi at fudiadau eraill sydd gallu rhoi cefnogaeth
- helpu gyda cheisiadau am grantiau fel Warm Home discount a chynllun HelpU Dŵr Cymru

Am fwy o wybodaeth ac i dderbyn cyngor, cysylltwch gyda'n Tîm Cymunedau a Phartneriaethau ar: **0300 123 8084** neu **cymunedol@adra.co.uk**

# Dau gyfle i ddau frawd




Mae rhoi cyfleoedd i bobl ein cymunedau cael datblygu gyrfa yn bwysig iawn i ni. Mae cymaint o dalent lleol yma, mae'n bwysig ein bod yn gwneud y mwyaf ohono.

Rydym yn falch iawn ein bod wedi gallu cynnig cyfleoedd unigryw i ddau frawd o Lanrug yn ddiweddar.

Un o'r brodyr ydi Jac Thomas. Mae Jac wedi bod yn astudio cwrs gradd Meddalwedd Peirianyddol ym Mhrifysgol John Moores, Lerpwl ac mae lleoliad gwaith 12 mis yn rhan o'i gwrs. Yn dilyn cyfweliad cafodd Jac ei dderbyn fel Hyfforddai Systemau Busnes TG gyda ni am flwyddyn. Mae wedi cael cyfle i weithio gydag ein tîm TG ni a chyfrannu at waith y cwmni yn ogystal â datblygu ei sgiliau.

"Rwyf wedi dysgu gymaint o sgiliau defnyddiol dros y flwyddyn ddiwethaf, o sgiliau datblygu meddalwedd i fy sgiliau cyfathrebu yn Gymraeg. Mae wedi bod yn brofiad anhygoel."

## Cyfleoedd trwy Academi Adra

Rydym yn gwmni gyda nifer o swyddi amrywiol. Mae sawl llwybr gyrfa i gael gyda ni, o waith cefnogi pobl i waith plymio. Tra bod Jac wedi cael profiad efo'n tîm TG yn datblygu a chynnal ein meddalwedd systemau busnes, mae ei frawd Huw wedi cael profiad cwbl wahanol hefo ein Tîm Trwsio.

Fe ymunodd Huw trwy gynllun Academi Adra i gefnogi unigolion i waith o fewn y byd adeiladu. Cafodd wneud cymwysterau fel cerdyn CSCS i fynd ar safle adeiladau a chyrsiau iechyd a diogelwch am weithio o uchder. Hyn oll cyn symud ymlaen i weithio hefo'n Tîm Trwsio ni.

Mae dros 150 yn rhan o'n Tîm Trwsio ni ac mae eu gwaith yn amrywio o drwsio problemau mewn cartrefi fel sinc wedi torri i ail wneud tai cyfan yn barod i'w helpu osod. Cafodd Huw drosolwg o'r gwaith yma yn ystod ei gyfnod gyda ni. Aeth ymlaen wedyn i gael pythefnos arall o brofiad trwy North Wales Training.

**"Diolch yn fawr i Academi Adra am y cyfle, mae wedi bod yn agoriad llygaid. Mae llawer o opsiynau yn Adra i rywun sydd efo 'trade'. Pwy a ŵyr, falla byddaf yn gallu cael swydd yma rhyw ddiwrnod ar ôl gorffen yn y Coleg"**



Cadwch lygaid ar ein gwefan a chyfryngau cymdeithasol am fwy o gyfleoedd gydag Academi Adra.



# Gwerth Cymdeithasol

Mae bob dim rydym ni'n ei wneud fel busnes yn cael effaith arno chi ein tenatiaid, neu ar gymdeithas. Rydym yn galw'r effaith yma yn werth cymdeithasol, a rydym yn medru rhoi rhif ariannol ar y gwerth yma er mwyn gweld pa weithgareddau sy'n cael yr effaith fwyaf. Bydd hyn yn ein helpu i wneud penderfyniadau ynglyn â sut a lle i fuddsoddi ein arian, a sicrhau bod yna cyn gymaint o werth a phosib yn yr hyn da ni'n ei gynnig i chi.

## Ein Gwerth Cymdeithasol yn ystod 2021/22

### Ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwasanaethau warden:

Wedi delio gyda 670 o achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelu a cham-drin domestig, yn cyfateb i £3.3m o werth cymdeithasol yn ôl yr amcangyfrif. 82% o gwsmeriaid yn fodlon gyda'r gwasanaeth yr oeddent wedi'i gael.

### Atgyweirio ac Addasiadau:

470 o addasiadau wedi'u cwblhau a £633,000 wedi'i fuddsoddi yn addasu tai ar gyfer byw'n annibynnol a chynhyrchu gwerth cymdeithasol o £1.5m yn ôl yr amcangyfrif.

### Atgyfeiriadau CAB:

£15,000 o fuddsoddiad blynyddol yn y gwasanaeth atgyfeirio Cyngor ar Bopeth sy'n rhoi cyngor ar gyllid a chyllideb i'n cwsmeriaid. Cafodd 101 o gwsmeriaid eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth gan gynhyrchu gwerth cymdeithasol o £714,000 yn ôl yr amcangyfrif.

### Mynd i'r afael ag unigedd:

Cafodd 231 o bobl eu cynorthwyo yn ein safleoedd Tai â Chymorth a chafodd 41 o bobl a oedd yn byw rhywle arall gymorth gan ein swyddogion cefnogi tenantiaid

### Addysg, hyfforddiant a phrentisiaethau:

Cafodd 70 o bobl gefnogaeth i hyfforddiant a chyflogaeth drwy ein menter 'Academi Adra'

### Gwario'n lleol:

Roedd 60% o'n cyflenwyr wedi'u lleoli yng Nghymru ac roedd 87% o'r rhain yn fusnesau bach neu ganolig.

Ers sefydlu Fframwaith Deunyddiau Cymru, mae £144,191 wedi'i godi drwy'r gronfa gwerth cymdeithasol a fydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi mentrau lleol, gan gynnwys cynnig cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau.

### Hybu'r iaith Gymraeg:

Mae 97% o staff Adra yn siaradwyr Cymraeg. Rydym wedi buddsoddi mewn cyfleoedd i ddysgwyr – yn staff neu gontractwyr yn gweithio gyda ni – i gael cefnogaeth i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Rydym wedi cyd-ddylunio modiwlau dysgu gyda phartneriaid eraill, lle mae staff yn dymuno cryfhau eu defnydd o'r Gymraeg.

# Cwestiynau Cyffredin

## Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**Gweithio gyda'n gilydd**
**i roi cartref diogel i bawb**

### Beth yw'r Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016?

Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn gyfraith newydd gan Lywodraeth Cymru a ddaw i rym ar 1 Rhagfyr 2022.

Mae'r newidiadau hyn wedi'u cynllunio gan Lywodraeth Cymru ers peth amser ac wedi cael eu craffu a'u cefnogi gan sefydliadau tenantiaid fel TPAS Cymru a Shelter Cymru.

### Ar bwy y mae'r ddeddf yn effeithio ?

Pob Landlord - Preifat a Chymdeithasol

Pob Tenant – Preifat a Chymdeithasol

### Sut bydd yn effeithio arnaf fel tenant Adra?

Nid oes angen poeni. Byddwch yn gallu byw yn eich cartref o hyd, byddwch yn talu rhent o hyd a byddwn yn gwneud eich atgyweiriadau ac yn gofalu am eich ystadau a mannau cymunedol o hyd.

Bydd Adra yn cael ei adnabod fel 'landlord cymunedol', newid o'r term 'landlord cymdeithasol'.

### Beth yw contract meddiannaeth?

Dyma'r enw newydd ar eich cytundeb tenantiaeth.



### Pryd fyddaf yn derbyn fy nghontract meddiannaeth?

Bydd tenantiaid presennol yn derbyn y contract meddiannaeth o fewn chwe mis o 1 Rhagfyr 2022 yn lle eich Cytundeb Tenantiaeth.

Dim ots pryd gewch chi eich contract, bydd y Ddeddf yn berthnasol i bawb o 1 Rhagfyr 2022.

### A oes angen i mi lofnodi'r contract?

Nac oes. NID oes angen i chi lofnodi'r contract. Nid yw'r datganiad ysgrifenedig yn gontract newydd, mae'n ddatganiad ysgrifenedig (copi ysgrifenedig) o delerau ac amodau presennol eich cytundeb tenantiaeth, sy'n ymgorffori ychwanegiadau a/neu newidiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

### A oes angen i mi wneud unrhyw beth?

Yr unig beth y bydd angen i chi ei wneud yw darllen eich contract pan fyddwch yn ei dderbyn ac ymgyfarwyddo â'ch hawliau a'ch cyfrifoldebau. Cadwch ef yn ddiogel fel y gallwch gyfeirio ato pan fydd angen.

Byddwn yn anfon datganiad ysgrifenedig (copi ysgrifenedig) o'u contract at denantiaid presennol Adra o fewn chwe mis o 1 Rhagfyr. Bydd tenantiaid newydd Adra (deiliaid contract) yn llofnodi'r contractau meddiannaeth o 1 Rhagfyr yn y ffordd arferol ar ddechrau eu tenantiaeth (contract)

### A fyddwch chi'n fy helpu os byddaf yn cael problemau gyda'm cymdogion?

Byddwn. Byddwn yn parhau i'ch helpu a'ch cefnogi os byddwch yn cael problemau gyda'ch cymdogion. Bydd pob contract meddiannaeth yn cynnwys amod ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall. Os bydd deiliad contract yn torri amod y contract hwn, gallwn gymryd camau.



### Sut allai gael mwy o wybodaeth am y newidiadau hyn?

Gwefan Llywodraeth Cymru:
**Tenantiaid: mae cyfraith tai yn newid (Rhentu Cartrefi) | LLYW.CYMRU**
**Mae cyfraith tai yn newid: Rhentu Cartrefi Cymru | LLYW.CYMRU**



Gallwch hefyd ddod o hyd i ganllaw Hawdd ei Ddarllen ar wefan Llywodraeth Cymru: **Tenantiaid: mae cyfraith tai yn newid (Rhentu Cartrefi) (hawdd ei ddeall) | LLYW.CYMRU**

Ein Gwefan: **https://www.adra.co.uk/fy-nghartref/rhentu-cartrefi**

# Eich adborth chi

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi bod yn gofyn eich barn am yr argyfwng costau byw. Fe wnaeth 150 ohonoch ymateb i'r ymgynghoriad, diolch i chi gyd am roi eich amser i rannu eich barn a'ch profiadau gyda ni.

O'ch adborth, mae'n amlwg bod y cynnydd mewn costau byw yn destun pryder i lawer ohonoch. Dywedodd dros 80% ohonoch eich bod yn teimlo bod eich sefyllfa ariannol eleni yn waeth o'i gymharu â'r adeg hon y llynedd.

Costau ynni a thanwydd sydd yn eich poeni fwyaf, yna cynnydd yng nghostau bwyd ac yna eich gallu i dalu eich rhent.

Cofiwch bod ein wardeniaid ynni ar gael i roi cyngor ar:

- arbed ynni ar ddefnyddio eich system wresogi yn effeithiol
- eich helpu i ymgeisio am grantiau ynni perthnasol

Mae mwy o wybodaeth am waith y wardeniaid a sut i gysylltu ar dudalen 7.

Mae manylion am ble i gael bwyd mewn argyfwng hefyd wedi'i gynnwys ar dudalen 4.

Mae sawl un ohonoch hefyd wedi gofyn am sgwrs bellach gyda aelod o'n Tîm Rhenti. Mae'n swyddogion yn brysur yn cysylltu yn ôl gyda chi er mwyn gweld pa gymorth ychwanegol sydd ar gael ac i lunio cynlluniau talu pan yn berthnasol.

Bydd eich adborth o gymorth mawr i ni ddeall beth yw'r anghenion a'r pryderon mwyaf, ac os oes modd i ni a'n partneriaid gynnig cymorth pellach mewn rhai meysydd.

Byddwn yn diweddaru ein tudalen argyfwng costau byw ar y wefan yn rheolaidd:

**adra.co.uk/cymorth-i-chi/argyfwng-costau-byw/**

Dilynwch ni hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol i glywed y newyddion diweddaraf am yr argyfwng a pha gymorth sydd ar gael gennym ni ag eraill.

@adrataicyf

# Prynhawn Hwyl Bro Seiont



Mae yna dipyn o ardaloedd gwyrdd o amgylch stad Bro Seiont yng Nghaernarfon. Yn ddiweddar mae'r trigolion wedi dod at eu gilydd i sgwrsio a rhannu syniadau ar sut y gallwn wneud gwell defnydd o'r ardaloedd yma.

Cafodd prynhawn hwyl ei gynnal ar y cyd gyda Galeri, Caernarfon ar gyfer y trigolion - fel rhan o gynllun Canfas.

Yn naturiol mae'n bwysig i ni gael barn y bobl sydd yn byw ym Mro Seiont am yr ardaloedd gwyrdd yma.

Roedd yn braf gweld trigolion Bro Seiont yn dod at eu gilydd a chael cyfle i ddod i adnabod ei gilydd.

Cafodd pawb brynhawn bach bendigedig – diolch i chi gyd am ddod draw.

Edrych ymlaen at ddatblygu syniadau trigolion Bro Seiont a gweld y cwbl yn dod yn fyw.

Cofiwch os oes gennych chi syniadau am beth allwn ei wneud gyda'r ardaloedd hyn, cysylltwch â ni: **cymunedol@adra.co.uk**

## Te Prynhawn ar stepan eich drws



I ddathlu wythnos genedlaethol te bach, rydym wedi cydweithio â Age Cymru i ddarparu bocsys te bach i rai o'n tenantiaid sydd yn byw mewn cartrefi cefnogol yn ardal Arfon.

Aeth ein Swyddog Cefnogol o amgylch cartrefi ein tenantiaid gyda bocs bendigedig llawn brechdanau, cacennau, rôl selsig a sgons wedi ei greu gan Age Cymru a chael cyfle am sgwrs gyda phob tenant. Diolch o galon Age Cymru - pleser cael cydweithio.



# Hoffi straeon am ein gwaith cymunedol?

Rydym yn darparu mwy na goriad i gartref. Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o brosiectau cymunedol a chynnig nifer o gyfleoedd gwaith a hyfforddiant.

Os hoffech wybod mwy am y gwaith yma yn ein cymunedau ewch draw i wefan
**Cymuned: Adra**